| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **9 CHWEFROR 2023** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 30 Mehefin 2022**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| CYFRIFON TERFYNOL 2021-2022 - ALLDRO REFENIW | Derbyn yr adroddiad<br>Nodi'r risgiau perthnasol<br>Cefnogi penderfyniad y Cabinet (14 Mehefin 2022)<br><br>Nodyn: Awgrym bod materion gorwariant a gwireddu arbedion ym maes bwrdeistrefol yn cael eu craffu. Cynnig cyfeirio'r awgrym at yr Uned Iaith a Chraffu fel bod modd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ei ystyried fel maes posib i'w graffu yn eu gweithdy blynyddol | **Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi craffu 'Amlinelliad o Raglen Waith Adolygu Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu' yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y rhesymau am y gorwariant a pa gamau a gymerir i'w daclo. Nodwyd yn ystod y drafodaeth y bwriad i'r Pwyllgor graffu rhai elfennau o raglen waith y gwasanaethau gwastraff pan yn amserol.**<br><br>**Dolen** |

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2022/23 | Derbyn yr adroddiad<br>Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23<br>Nodyn: Archwiliad 'Diogelwch Seicolegol' – y Pwyllgor yn argymell, fel rhan o'r trafodaethau gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, yr angen i fabwysiadu trefn o gynnal cyfweliadau gadael | **Yr archwiliad heb gychwyn eto, ond cyfweliadau gadael yn derbyn sylw hefyd gan y Bwrdd Prosiect Cynllunio'r Gweithlu** |
| ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL | Bod y Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu<br><br>Nodyn: Cais i adolygu'r allwedd i'r casgliadau ynghyd a gosod amserlen i'r adroddiadau hynny sydd 'ar waith. | **Hyn yn derbyn sylw erbyn y tro nesaf bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno** |

**Cyfarfod 13 Hydref 2022**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 | 1. Derbyn yr adroddiad<br>2. Derbyn cynnydd ar y rhaglen waith<br>3. Cais am ddiweddariad pellach i Bwyllgor mis Chwefror 2023 | **Eitem ar raglen heddiw** |
| RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022 | Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor | **Dim camau pellach** |
| CYLLIDEB REFENIW 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022 | 3. Bod adroddiad cynnydd o'r camau gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor wedi trafodaethau rhwng y Prif Weithredwr a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â gorwariant yr Adran (yr adroddiad i gynnwys ymateb i argymhellion a gyflwynwyd i'r Adran gan WRAP Cymru). | **Y cyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr a'r penaethiaid wedi digwydd yn ystod hydref 2022. Adrodd i'r Cabinet yn y dyfodol agos.** |

**Cyfarfod 17 Tachwedd 2022**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR | 1. Derbyn yr adroddiad<br>2. Derbyn yr awgrym i ddileu eitem pan fydd y weithred wedi cwblhau | **Dim camau pellach** |
| PREMIWM AR DRETH CYNGOR AIL GARTREFI AC ANHEDDAU GWAG HIRDYMOR | • Derbyn bod y wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau yn cydymffurfio gyda'r canllawiau statudol a gofynion deddfwriaethol<br>• Cynnig y sylwadau isod i'r Cabinet eu hystyried wrth benderfynu ar argymhelliad i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad terfynol ar y lefelau premiwm:<br>1. Bod angen cwblhau asesiad ieithyddol cynhwysfawr yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor<br>2. Bod angen ystyried effaith y premiwm ar allu 'brodorion' i wneud bywoliaeth<br>3. Bod angen gweld ystadegau sydd yn dangos effaith y premiwm ar adfer tai gwag<br>4. Bod angen tystiolaeth am lwyddiant y premiwm. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?<br>5. Bod angen ymgynghori pellach ar ddefnydd y premiwm. Beth yw'r cyfiawnhad o ddefnyddio premiwm ail gartref i gyllido digartrefedd? Derbyn bod yr egwyddor yn dderbyniol, ond beth yw'r dystiolaeth tu cefn i'r penderfyniad?<br>6. Bod angen cydblethu ystyriaethau'r premiwm gyda deddfwriaethau a mesurau Llywodraeth Cymru o reoli ail dai | **Sylwadau wedi eu cyflwyno i'r Cabinet ar 22 Tachwedd ac i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr** |
| ADRODDIAD RHEOLAETH TRYSORLYS HANNER BLWYDDYN 2022-23 | Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth | **Dim camau pellach** |

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2021/22 | • Derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn<br>• Bod yr adroddiad, i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet<br><br>Awgrymiadau:<br>• Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad y Cyngor<br>• Cynnwys crynodeb o'r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion<br>• Categoreiddio neu osod cyd-destun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau<br>• Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau'r Pwyllgor - a oes angen rhoi trosolwg ar 'holl adrannau'r Cyngor' (gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain)? | **Byddwn yn ceisio gweithredu pan fydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor** |
| DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 – HUNANASESIADAU | • Derbyn yr hunanasesiad drafft<br>• Croesawu'r bwriad o gynnwys yr hunanasesiad yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor i'r dyfodol<br>• Sicrhau, bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn gynharach yn y flwyddyn<br><br>Awgrym:<br>• Ystyried cynnwys cyfeiriad at y gefnogaeth a'r hyfforddiant a roddir i Aelodau Etholedig | **Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor yn ystyried amserlen posibl ar gyfer cyflwyno'r adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2022/23(i gynnwys yr hunanasesiad) a sicrhau mewnbwn amserol gan wahanol garfannau. Gallwn gadarnhau pan fydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.**<br><br>**Yr awgrym wedi derbyn sylw o fewn yr adroddiad hunanasesiad terfynol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 1/12/22.** |

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn diweddariad Chwarter 2 i raglen waith Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd<br>• Derbyn ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru 'Llamu Ymlaen' sydd yn canolbwyntio ar ymateb y Cyngor i drefniadau gweithio i'r dyfodol | **Dim camau pellach** |

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.